Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

Briff Ymchwil

Chwefror 2020



www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Ymchwil y Senedd**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 7350**
E-bost: **Emily.Williams@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**
LinkedIn: **Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

## Briff Ymchwil

Chwefror 2020

**Awdur:**
Emily Williams

## Cynnwys


**1. Crynodeb ........................................ 1**

**2. Beth yw Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru? ..................... 2**

2.1. Cefndir deddfwriaethol cryno ........................................ 3

2.1.a Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir ........................................ 3

2.1.b Deddfau Cymru ........................................ 4

2.1.c Cyfarwyddebau'r UE ........................................ 5

**3. Sut mae cynllunio morol wedi datblygu yng Nghymru? ... 7**

3.1. Datblygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru drafft .................. 7

3.2. Ymatebion i'r ymgynghoriad ar Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru drafft ........................................ 8

3.3. Gwaith craffu Cynulliad Cenedlaethol Cymru .............................. 8

3.4. Ymgysylltu yn dilyn ymgynghoriad ........................................ 9

3.5. Cyhoeddi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ............................ 9

**4. Beth yw cynnwys y Cynllun Morol a dogfennau cysylltiedig?10**

4.1. Gweledigaeth ........................................ 10

4.2. Amcanion y cynllun ........................................ 10

4.3. Polisïau'r cynllun ........................................ 11

4.3.a Polisïau cyffredinol ........................................ 11

4.3.b Polisïau sector ........................................ 11

4.4. Datganiadau o Gyfranogiad y Cyhoedd ........................................ 12

4.5. Arfarniad o Gynaliadwyedd ........................................ 12

4.6. Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd ........................................ 13

**5. Sut mae'r Cynllun Morol mabwysiedig yn wahanol i'r cynllun drafft? ........................................ 14**

5.1. Crynodeb o newidiadau ........................................ 14

5.2. Polisïau i ddiogelu sectorau ........................................ 14

5.3. Ardaloedd Adnoddau Strategol ........................................ 14

5.4. Polisi'r sector olew a nwy ........................................ 16

5.4.a Datganiad gweinidogol ........................................ 17

5.5. Polisi morlyn llanw ........................................ 17

5.6. Newidiadau i'r Asesiad Cynaliadwyedd ........................................ 18

**6. Sut mae'r Cynllun Morol yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru)? 20**

**7. Sut y dylid defnyddio'r Cynllun Morol? ................................ 21**

7.1. Penderfyniadau awdurdodau cyhoeddus ........................................ 21

7.2. Integreiddio â chyfundrefnau cynllunio eraill ............................ 21

7.3. Gweithredu ........ 22

7.3.a Datganiad Ardal Forol ........ 23

7.4. Adolygu ac adrodd ........ 24

7.5. Diwygio'r Cynllun Morol neu ei dynnu'n ôl ........ 24

7.6. Argymhellion Arfarniad o Gynaliadwyedd ........ 25

**8. Ffynonellau Allweddol ........ 26**

8.1. Llywodraeth Cymru ........ 26

8.2. Cynulliad Cenedlaethol Cymru ........ 26

8.3. Ffynonellau eraill ........ 26




# 1. Crynodeb

Mae'r briff ymchwil hwn yn rhoi trosolwg o **Gynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru,** (y Cynllun Morol / WNMP) a gyhoeddwyd ar 12 Tachwedd 2019. Mae'n disgrifio sut cafodd y Cynllun Morol ei ddatblygu ac yn amlinellu pwrpas a pholisïau arfaethedig y Cynllun Morol.

# 2. Beth yw Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru?

Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn nodi polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu cynaliadwy yr ardal cynllunio morol, ac mewn cysylltiad â hynny. Mae'r ardal hon yn cynnwys y rhanbarth ar y glannau a'r môr mawr, sy'n cynnwys oddeutu 32,000 km$^2$ o fôr a 2,120 km o forlin (ffigur 1).

**Ffigur 1. Ardal Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru**




**Ffynhonnell:** **Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru Drafft**



**Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru:** Briff Ymchwil

Wrth **gyhoeddi y Cynllun Morol a fabwysiadwyd** ar 12 Tachwedd 2019, dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths AC:

> ...Mae'r cynllun yn gosod gofynion mwy cadarn ar ddatblygwyr ac awdurdodau cyhoeddus, gan roi sail gadarnach i Lywodraeth Cymru ar gyfer pennu a thrwyddedu gweithgareddau yn unol â'n gwerthoedd.

Mae Adran 6 y briff hwn yn amlinellu rhai o'r defnyddiau a ddisgwylir o'r Cynllun Morol.

## 2.1. Cefndir deddfwriaethol cryno

Mae'r canlynol yn grynodeb cryno o rai o'r gofynion deddfwriaethol sy'n berthnasol i'r Cynllun Morol.

### 2.1.a Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir

Sefydlodd **Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009** system ar gyfer cynllunio morol ym moroedd y DU. Mae'r Ddeddf yn nodi mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cynllunio morol ar gyfer rhanbarthau'r glannau a'r môr mawr yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r broses o reoli gweithgareddau yn nyfroedd Cymru wedi'i rhannu rhwng y swyddogaethau sydd wedi'u datganoli a'r swyddogaethau a gedwir yn ôl gan Lywodraeth y DU. Felly, cafodd y Cynllun Morol ei fabwysiadu gyda chytundeb Ysgrifennydd Gwladol y DU dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

Mae Atodiad I o'r Cynllun Morol yn rhoi crynodeb o ofynion y Ddeddf, fel y mae'n berthnasol i'r cynllun.

**Datganiad Polisi Morol y DU**

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaethau ar gyfer paratoi a mabwysiadu Datganiadau Polisi Morol. Cafodd **Datganiad Polisi Morol y DU (yr MPS)** ei fabwysiadu gan lywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig ym mis Mawrth 2011. Mae'n darparu'r fframwaith ar gyfer paratoi cynlluniau morol yn y DU ac yn darparu'r cyd-destun polisi lefel uchel ar gyfer cynllunio morol.

Bwriad yr MPS yw hwyluso'r broses o ddatblygu cynlluniau morol yn unol â gweledigaeth y DU ar gyfer sicrhau cefnforoedd a moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol. Mae'n nodi pum **Amcan Morol Lefel Uchel** ledled y DU:

- Sicrhau economi morol cynaliadwy;

- Sicrhau cymdeithas gref, iach a theg;
- Byw o fewn cyfyngiadau amgylcheddol;
- Hyrwyddo llywodraethu da; a
- Defnyddio gwyddoniaeth mewn ffordd gyfrifol.

## 2.1.b Deddfau Cymru

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gyflawni swyddogaethau datblygu cynaliadwy gyda'r nod o gyflawni saith nod llesiant i Gymru.

Yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ystyr "datblygu cynaliadwy" yw'r:

> broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (gweler adran 5), gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi:

> mae unrhyw gyfeiriad at y ffaith bod corff cyhoeddus yn gwneud rhywbeth "yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy" yn golygu bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

Mae **adran 5** o'r Ddeddf yn rhoi mwy o fanylion am yr hyn y mae'n rhaid i gorff cyhoeddus ei ystyried er mwyn gweithredu yn y modd hwn.

Y nodau llesiant, a ddiffinnir yn **adran 4** o'r Ddeddf, yw:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Chymru â diwylliant bywiog, lle mae'r Gymraeg yn ffynnu;
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.





### Deddf yr Amgylchedd (Cymru)

Mae **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i:

> ...geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.

Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol (SMNR), sy'n golygu:

- Defnyddio adnoddau naturiol mewn modd ac ar gyfradd sy'n hyrwyddo cyflawni amcan SMNR;
- Cymryd camau eraill sy'n hyrwyddo cyflawni'r amcan hwnnw, ac
- Peidio â chymryd camau sy'n llesteirio cyflawni'r amcan hwnnw.

Mae'r Ddeddf yn diffinio amcan SMNR fel a ganlyn:

> Yr amcan yw cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt ac, wrth wneud hynny—
>
> (a) diwallu anghenion y cenedlaethau presennol o bobl heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau, a
>
> (b) cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2).

Mae **adran 4** o'r Ddeddf yn cyflwyno naw egwyddor i helpu i arwain ac ategu'r ffordd y dylid dehongli SMNR. Mae **Adran 5** o'r Ddeddf yn ail-alinio pwrpas cyffredinol **Cyfoeth Naturiol Cymru** (CMC) i ddilyn SMNR o ran Cymru a chymhwyso egwyddorion SMNR.

Mae adran 5 y briff hwn yn crynhoi canfyddiadau asesiad, a oedd yn ystyried cyfraniad Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru at y nodau llesiant ac amcan SMNR.

## 2.1.c Cyfarwyddebau'r UE

Datblygwyd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru tra roedd y Deyrnas Unedig yn Aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd (yr UE). Oherwydd hynny, roedd yn ofynnol i'w ddatblygu yn unol â Chyfarwyddebau'r UE.

Ym mis Gorffennaf 2014, cafodd y **Gyfarwyddeb Cynllunio Gofodol Morwrol** ei fabwysiadu gan yr UE. Mae'r Gyfarwyddeb yn gosod fframwaith cyffredin ar gyfer cynllunio gofodol morol ledled yr UE ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob Aelod-

wladwriaeth fod â chynlluniau morwrol ar waith erbyn 31 Mawrth 2021.

Mae **Cyfarwyddeb Cynllunio Gofodol Morwrol 2014 a Chyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Forol yr UE 2008 (**Cyfarwyddeb MSFD) hefyd ei gwneud yn ofynnol i gynllun morol fod yn seiliedig ar ecosystem.

Mae **Rheoliadau Strategaeth Forol 2010**, sy'n gweithredu Cyfarwyddeb MSFD yng nghyfraith y DU, yn ei gwneud yn ofynnol cael dull seiliedig ar ecosystem ar gyfer rheoli gweithgareddau dynol o fewn ardal y strategaeth forol (a ddiffinnir o dan **ran 1** o'r rheoliadau). Mae'r rheoliadau hyn yn diffinio dull sy'n seiliedig ar ecosystemau fel a ganlyn:

- Dull sy'n sicrhau bod pwysau cyfunol gweithgareddau dynol o fewn ardal y strategaeth forol yn cael ei gadw o fewn lefelau sy'n gydnaws â chyflawni statws amgylcheddol da; a
- Dull nad yw'n peryglu gallu ecosystemau morol i ymateb i newidiadau a achosir gan bobl.





# 3. Sut mae cynllunio morol wedi datblygu yng Nghymru?

## 3.1. Datblygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru drafft

Yn 2011, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad, **"Datblygu cynaliadwy ar gyfer moroedd Cymru: Ein dull o ymdrin â chynllunio morol yng Nghymru"**, a nododd:

> This consultation sets out our intention to develop a national plan for the Welsh inshore area and a national plan for the Welsh offshore area and adopt them by 2012/13. The consultation also sets out options for, and asks questions on, how we should plan on a sub-national level in order to embed more detail in the national plans.

Ar **19 Awst 2014**, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad 12 wythnos arall ar strwythur, gweledigaeth ac amcanion arfaethedig y Cynllun Morol. Er nad yw'r ymgynghoriad hwn ar gael bellach ar wefan Llywodraeth Cymru, mae **Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd** (SPP) Llywodraeth Cymru yn nodi bod yr ymgynghoriad yn:

> ...cynnwys cwmpas arfaethedig yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Ar yr un pryd, trefnwyd bod yr adroddiad drafft am yr Ymarfer Cwmpasu Strategol, a fersiwn gynnar o'r Porthol Tystiolaeth Cynllunio Morol, ar gael er mwyn i bobl fedru cyflwyno sylwadau arnynt.

Yn ôl y **Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd**, ym mis Tachwedd 2015, cafodd drafft cychwynnol o'r cynllun ei rannu â rhanddeiliaid a'i ategu gan weithdai ymgysylltu â'r cyhoedd.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Hadroddiad ar Dystiolaeth Morol Cymru** hefyd yn 2015. Meddai:

> This evidence base presented here will be used to inform the development of the Welsh National Marine Plan and will be maintained and updated as marine planning in Wales develops.

Cafodd **diweddariad** i'r adroddiad hwn ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2020.

Ar 7 Rhagfyr 2017, lansiodd Llywodraeth Cymru **ymgynghoriad** ar y Cynllun Morol drafft a nifer o ddogfennau ategol. Roedd y rhain yn cynnwys Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd (HRA), Asesiad Cynaliadwyedd (SA) ac adolygiad o'r polisi dros dro ar garthu agregau morol. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd hefyd i **Borthol Cynllunio Morol Cymru** fel offeryn ar gyfer cynllunio morol.

## 3.2. Ymatebion i'r ymgynghoriad ar Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru drafft

Cafwyd 86 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Morol drafft. Roedd **crynodeb o ymatebion** Llywodraeth Cymru yn amlygu sawl thema allweddol yn yr ymatebion, gan awgrymu bod angen:

- Sicrhau cydbwysedd priodol rhwng buddiannau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd;
- Mireinio'r cysyniad o Ardaloedd Adnoddau Strategol (SRAs)[1] a'r sylfaen dystiolaeth ar eu cyfer;
- Sicrhau dull tryloyw a chydgysylltiedig o reoli trawsffiniol;
- Defnyddio tystiolaeth wrth wneud penderfyniadau;
- Gwneud hyd y cynllun yn fyrrach ac yn fwy eglur;
- Gweithio gyda rhanddeiliaid ar gamau pellach i ddatblygu dulliau o fonitro, gwerthuso ac adrodd;
- Mireinio a diweddaru Porth Cynllunio Morol Cymru; ac
- Adolygu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd ac ystyried unrhyw newidiadau sy'n ofynnol yn y cynllun terfynol.

Mae'r ddogfen **crynodeb o newidiadau** a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Cynllun Morol mabwysiedig hefyd yn grynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad mewn themâu tebyg, gan gynnwys:

- Strwythur y cynllun (e.e. hyd a chymhlethdod);
- Datblygu Cynaliadwy (e.e. cymhwyso gofynion *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*);
- Pryderon ynghylch Ardaloedd Adnoddau Strategol (SRAs);
- Pryderon ynghylch y polisi ar gyfer datblygu morlyn ar raddfa fawr;
- Pwysigrwydd rheoli trawsffiniol; a
- Ceisiadau am fwy o eglurder ynghylch darpariaethau monitro ac adrodd ar gyflawniadau yn erbyn amcanion y Cynllun Morol.

**1** Disgrifir SRAs ymhellach yn adran 4.3. o'r briff hwn



**Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru:** Briff Ymchwil

## 3.3. Gwaith craffu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, galwodd dau Bwyllgor **(Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd a'r Pwyllgor Menter a Busnes**) ar Lywodraeth Cymru i roi mwy o flaenoriaeth i ddatblygu cynllun morol. Roedd y ddau Bwyllgor yn credu mai cynllun o'r fath oedd y ffordd orau o sicrhau bod Cymru yn amddiffyn ei hamgylchedd naturiol ond hefyd yn gwneud y gorau o botensial ei heconomi forwrol.

O ystyried pwysigrwydd cynnwys y cynllun, awgrymodd **adroddiad etifeddiaeth** Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd y gallai Aelodau'r Pumed Cynulliad fod eisiau craffu ar y cynnydd tuag at fabwysiadu cynllun a gweithredu'r cynllun hwnnw.

Clywodd **Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig dystiolaeth** ar gynllunio morol ar 1 Chwefror 2018 a chynhaliodd weithdy i randdeiliaid i drafod y Cynllun Morol drafft ar 14 Mawrth 2018. Ym mis Ebrill 2018, gwnaeth y Pwyllgor **13 o argymhellion** ar y Cynllun Morol drafft, a chafwyd **ymateb gan Lywodraeth Cymru** i'r argymhellion hyn ym mis Mehefin 2018.

Cynhaliodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru **ddadl** ar y cynllun drafft ar 9 Ionawr 2018.

## 3.4. Ymgysylltu yn dilyn ymgynghoriad

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y cynllun drafft, fe wnaeth Llywodraeth Cymru **gwrdd** â rhanddeiliaid gan gynnwys y **Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol.** Cafodd **cylchlythyr cynllunio morol** i randdeiliaid ei greu gan Lywodraeth Cymru hefyd.

## 3.5. Cyhoeddi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

Gwnaeth Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ddatganiad llafar yn **cyhoeddi'r Cynllun Morol a fabwysiadwyd** ar 12 Tachwedd 2019.

# 4. Beth yw cynnwys y Cynllun Morol a dogfennau cysylltiedig?

Mae'r Cynllun Morol yn cynnwys pedair adran allweddol:

- Gweledigaeth;
- Amcanion y cynllun;
- Polisïau cyffredinol;
- Polisïau sector.

## 4.1. Gweledigaeth

Gweledigaeth y Cynllun Morol yw cefnogi **gweledigaeth gyffredin y DU ar gyfer yr amgylchedd morol** ac:

> Mae moroedd Cymru yn lân, yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn fiolegol amrywiol trwy:
>
> ◊ Ddull sy'n seiliedig ar ecosystem, mae adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mae ein moroedd yn iach ac yn gydnerth, ac yn cefnogi economi gynaliadwy a ffyniannus;
>
> ◊ Mynediad i'r amgylchedd morol a threftadaeth ddiwylliannol forol, a dealltwriaeth a mwynhad ohonynt, mae iechyd a llesiant yn gwella;
>
> ◊ Twf Glas mae mwy o swyddi a chyfoeth yn cael eu creu sy'n helpu cymunedau arfordirol i ddod yn fwy cydnerth, ffyniannus a theg gyda diwylliant bywiog;
>
> ◊ Defnyddio technolegau carbon isel yn gyfrifol, mae ardal forol Cymru yn gwneud cyfraniad cryf at ddiogelu ffynonellau ynni a chyflawni targedau allyriadau newid yn yr hinsawdd.

## 4.2. Amcanion y cynllun

Mae'r Cynllun Morol yn cynnwys 13 amcan, wedi'u trefnu yn ôl pum **amcan morol lefel uchel y DU**, gydag un amcan cynllun cyffredinol.

Yr amcan cynllun cyffredinol yw:

> …hybu datblygu cynaliadwy yn ardal forol Cymru drwy gyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru, gan sicrhau bod Adnoddau Naturiol yn cael eu Rheoli'n Gynaliadwy (SMNR) drwy ystyried effeithiau cronnol yr holl ffyrdd o ddefnyddio'r amgylchedd morol.

Mae Tabl 3 o'r Cynllun Morol yn amlinellu pa bolisïau yn y Cynllun y bwriedir iddynt weithredu pob un o'r amcanion.





## 4.3. Polisïau'r cynllun

Mae dau fath o bolisi yn y Cynllun Morol; polisïau cyffredinol a pholisïau sector. Mae'r Cynllun Morol yn nodi y:

> …dylid cymhwyso'r polisïau cyffredinol a'r polisïau sector, oni bai bod y polisi neu ddogfennau cynllunio ategol…yn awgrymu'n wahanol.

Er bod naratif cefndirol yn cyd-fynd â'r polisïau yn y Cynllun Morol, pwysleisir arwyddocâd y polisïau eu hunain. Mae'r Cynllun Morol yn dweud:

> …os yw polisi sydd wedi'i ddatgan yn y Cynllun hwn yn mynd yn groes i unrhyw ddatganiad neu wybodaeth arall sydd yn y Cynllun, yna rhaid datrys y gwrthdaro hwnnw o blaid y polisi.

### 4.3.a Polisïau cyffredinol

Mae'r polisïau cyffredinol yn y Cynllun Morol wedi'u cynllunio i weithio gyda pholisïau'r sector i gefnogi datblygu cynaliadwy. Mae'r polisïau cyffredinol sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun yn ymwneud â phynciau fel twf economaidd cynaliadwy, lles cymunedau arfordirol, byw o fewn terfynau amgylcheddol a llywodraethu.

### 4.3.b Polisïau sector

Mae'r cynllun yn cynnwys polisïau ar gyfer y sectorau canlynol:

- Agregau;
- Dyframaeth;
- Amddiffyn;
- Carthu a Gwaredu;
- Ynni – Carbon Isel;
- Ynni – Olew a Nwy;
- Pysgodfeydd;
- Porthladdoedd a Morgludo;
- Ceblau o dan y môr;
- Trin a Gwaredu Dŵr Wyneb a Dŵr Gwastraff;
- Twristiaeth a Hamdden

Mae'r amcanion sector wedi'u cynnwys ochr yn ochr â'r polisïau sector. Mae'r Cynllun Morol yn nodi mai bwriad y rhain yw "disgrifio sut y dymunir i gyflwr y

sector hwnnw fod yn y dyfodol gan hefyd roi cyd-destun ar gyfer polisïau'r sector".

Mae'r polisïau sector yn y Cynllun Morol yn cynnwys cefnogi polisïau (i gefnogi datblygu cynaliadwy sector) a pholisïau diogelu (i ddiogelu rhai o fuddiannau'r sector rhag effeithiau andwyol gweithgareddau eraill).

**Polisïau i gefnogi sectorau**

Mae'r Cynllun Morol yn disgrifio polisïau i gefnogi sectorau fel rhai sy'n dilyn fframwaith cyffredin i raddau helaeth, sy'n cynnwys:

◊ Cefnogaeth i gynigion sy'n cyfrannu at ddatblygu'r sector yn gynaliadwy ac sy'n gyson â pholisïau ac amcanion y Cynllun hwn; ac

◊ Annog cydweithio a chasglu tystiolaeth strategol er mwyn deall cyfleoedd a photensial ar gyfer datblygu cynaliadwy yn y dyfodol yn well.

**Polisi i ddiogelu sectorau**

Mae'r Cynllun Morol yn disgrifio polisïau i ddiogelu sectorau fel rhai sy'n ceisio diogelu:

◊ Gweithgarwch sydd wedi cael cydsyniad e.e. agregau, ceblau tanfor neu seilwaith ynni;

◊ Gweithgarwch sydd wedi ennill ei blwyf (nad oedd angen cydsyniad arno) e.e. pysgodfeydd, twristiaeth a hamdden; a

◊ Meysydd y gall fod cyfleoedd iddynt yn y dyfodol (wedi'u diffinio mewn SRA).

## 4.4. Datganiadau o Gyfranogiad y Cyhoedd

Mae **Atodlen 5** o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio morol perthnasol gyhoeddi Datganiadau o Gyfranogiad y Cyhoedd (SPP), cyn dechrau'r broses cynllunio morol. Mae'r rhain yn nodi sut y gall rhanddeiliaid gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r cynllun a sut y gellir cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru **ymgynghori a chyhoeddi** ei SPP cyntaf yn 2014. Cyhoeddodd hefyd **Ddatganiad o gyfranogiad y cyhoedd ar gyfer Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru** wedi'i ddiweddaru yn 2018.

## 4.5. Arfarniad o Gynaliadwyedd

Fel sy'n ofynnol gan **Atodlen 6** o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA) i asesu effeithiau tebygol y polisïau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Morol ar feini prawf datblygu





cynaliadwy. Mae dogfen yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn nodi:

> Sustainability Appraisal (SA) is a form of assessment that considers the social, economic and environmental effects of a plan or programme in the context of sustainable development… In meeting its requirement to undertake an SA of the WNMP, the Welsh Government must also address the requirements of the **European Union Directive 2001/42/EC on the Assessment of Certain Plans and Programmes on the Environment**, more commonly known as the Strategic Environmental Assessment (SEA) Directive.

Roedd Arfarniad o Gynaliadwyedd Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun Morol yn ymgorffori asesiad wedi'i gynllunio i gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol hefyd. Cafodd yr **Arfarniad o Gynaliadwyedd** ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Morol drafft. Yn dilyn cyhoeddi'r Cynllun Morol a fabwysiadwyd, cafodd **Atodiad Arfarniad o Gynaliadwyedd** ei gyhoeddi sy'n cynnwys manylion yr asesiad o newidiadau a wnaed i'r Cynllun Morol o'i ffurf ddrafft. Cafodd **datganiad ôl-fabwysiadu yr Arfarniad o Gynaliadwyedd** ei gyhoeddi hefyd yn unol â'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae'n crynhoi:

- Sut mae ystyriaethau amgylcheddol wedi'u cynnwys yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru;
- Sut mae adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod gwaith ymgynghori wedi'u hystyried
- Y rhesymau dros ddewis Cynllun Morol Cenedlaethol fel y'i cyhoeddwyd, o ystyried y dewisiadau amgen rhesymol eraill yr ymdriniwyd â hwy[2]; ac
- Y mesurau y penderfynwyd yn eu cylch yn ymwneud â monitro.

## 4.6. Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd

Yn unol â **Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017** ('y Rheoliadau Cynefinoedd'), mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd i benderfynu a yw'r Cynllun Morol yn debygol o gael effaith sylweddol (ar ei ben ei hun, neu mewn cyfuniad â chynlluniau eraill) ar unrhyw safle cadwraeth natur dynodedig Ewropeaidd.

Cafodd **adroddiad yn cyflwyno'r Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd** o'r Cynllun Morol drafft ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r cynllun drafft. Cafodd **adroddiad Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd** wedi'i ddiweddaru, a oedd yn adlewyrchu'r newidiadau i'r Cynllun Morol drafft, ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r cynllun mabwysiedig.

**2** Mae'r **Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol** yn ei gwneud yn ofynnol i nodi, disgrifio a gwerthuso'r effeithiau arwyddocaol tebygol o weithredu'r cynllun neu'r rhaglen, a'r dewisiadau rhesymol dros ystyried amcanion a chwmpas daearyddol y cynllun neu'r rhaglen.

# 5. Sut mae'r Cynllun Morol mabwysiedig yn wahanol i'r cynllun drafft?

## 5.1. Crynodeb o newidiadau

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **grynodeb o newidiadau** a wnaed i'r Cynllun Morol yn dilyn yr ymgynghoriad ar y fersiwn ddrafft. Mae'r crynodeb yn manylu ar sylwadau gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad a'r newidiadau o ganlyniad, os o gwbl, a wnaed i'r Cynllun Morol.

Mae'r **Atodiad Arfarniad o Gynaliadwyedd,** a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Cynllun Morol mabwysiedig, yn tynnu sylw at newidiadau a wnaed i eiriad polisïau o'r cynllun drafft mewn newidiadau wedi'u tracio a chategoreiddio'r newidiadau a wnaed i'r cynllun fel a ganlyn (pwyslais wedi'i ychwanegu):

> ◊ **Newidiadau strwythurol:** er enghraifft, lleihau hyd a chymhlethdod y cynllun trwy ailstrwythuro fersiwn ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a dileu/trosglwyddo rhywfaint o'r deunydd i ddogfennau eraill megis Canllawiau Gweithredu a Hysbysiadau Cynllunio Morol, a allai gael eu cynhyrchu yn y dyfodol;
>
> ◊ **Diwygiadau polisi:** er enghraifft, diwygiadau i bolisïau fersiwn ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru gan gynnwys cyfuno polisïau, newidiadau i eiriad polisïau, dileu polisïau a chynnwys polisïau ychwanegol;
>
> ◊ **Dileu Ardaloedd Adnoddau Strategol**: dileu Ardaloedd Adnoddau Strategol o'r cynllun a gohirio eu hystyriaeth yn y dyfodol o dan Hysbysiadau Cynllunio Morol unigol, a chanolbwyntio rôl Ardaloedd Adnoddau Strategol ar ddiogelu defnydd posibl o adnoddau yn y dyfodol, yn hytrach na chefnogi gweithgarwch newydd; a
>
> ◊ **Diwygiadau ategol i'r testun:** er enghraifft, diwygiadau i adrannau rhagarweiniol y cynllun a diwygiadau i'r canllawiau gweithredu polisi.

## 5.2. Polisïau i ddiogelu sectorau

Mae un o'r newidiadau nodedig i'r Cynllun Morol drafft yn ymwneud â'r polisïau sector. Mae'r ddogfen **crynodeb o newidiadau** yn tynnu sylw at y ffaith bod "polisi diogelu wedi'i symleiddio trwy gyflwyno Polisi Diogelu Cyffredin yn lle Polisïau Diogelu Sector unigol (ar gyfer sectorau ar wahân i Amddiffyn)". Felly, mae llai o bolisïau diogelu sector yn y Cynllun Morol mabwysiedig.

## 5.3. Ardaloedd Adnoddau Strategol

Roedd y Cynllun Morol drafft yn cyflwyno Ardaloedd Adnoddau Strategol, sef





ardaloedd sydd wedi'u diffinio'n ofodol ar fapiau yn y cynllun drafft. Mae'r Cynllun Morol drafft yn disgrifio Ardaloedd Adnoddau Strategol fel a ganlyn:

> …defnyddir y rhain i ddyrannu gofod a chanoli defnydd yn y dyfodol. Mae'r rhain yn ardaloedd lle mae cyfleoedd da i ddefnyddio adnoddau gan sector penodol yn ystod cyfnod y cynllun ac wedyn. Mae'r Ardaloedd Adnoddau Strategol o fewn yr Ardal Adnoddau gysylltiedig. Mae Ardaloedd Adnoddau Strategol wedi'u dangos ar raddfa eang: rhoddir sylw i faterion a chyfyngiadau lleol sydd â dimensiwn gofodol sy'n gysylltiedig â'r polisïau cyffredinol wrth ystyried cynigion penodol.

Mae'r ddogfen **crynodeb o newidiadau** yn tynnu sylw at y ffaith bod Ardaloedd Adnoddau Strategol yn thema allweddol yn ymatebion yr ymgynghoriad i'r Cynllun Morol drafft:

> Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r bwriad o ddarparu cyfeiriad gofodol yn yr WNMP drafft, ond mynegwyd rhai pryderon ynghylch amryw o agweddau mewn perthynas ag SRAs, gan gynnwys:
>
> ◊ Diffyg eglurder o ran diben a rôl SRAs wrth wneud penderfyniadau;
>
> ◊ Bod SRAs arfaethedig yn cefnogi twf y sector, er nad yw eto'n cael ei ategu gan dystiolaeth gynhwysfawr o gyfyngiadau amgylcheddol;
>
> ◊ Bod rhai anghysondebau yn y fethodoleg a'r dull o nodi a diffinio ffiniau SRA arfaethedig; a
>
> ◊ Dylai fod cyfle i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn briodol er mwyn cefnogi'r gwaith o nodi a datblygu SRAs.

Nid yw Ardaloedd Adnoddau Strategol gofodol wedi'u cynnwys yn y Cynllun Morol mabwysiedig. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Morol yn nodi y "caiff SRA ei chyflwyno neu ei newid trwy'r MPN [Hysbysiadau Cynllunio Morol]". Mae'r Cynllun Morol yn disgrifio Hysbysiadau Cynllunio Morol fel dogfennau cynllunio atodol, a fydd yn:

> …rhoi arweiniad ar sut i roi polisïau'r Cynllun hwn ar waith neu eu datblygu mewn ardaloedd penodol. Nid yw'r MPN yn cyflwyno polisïau newydd ond mae'n ein helpu i ddehongli neu gyflawni polisi. Bydd MPN yn destun ymgynghori.

Er nad yw Ardaloedd Adnoddau Strategol (SPAs) wedi'u cynnwys yn y Cynllun Morol, cyfeirir atynt ym mholisi 'SAF_02' yn y Cynllun Morol mabwysiedig (pwyslais wedi'i ychwanegu):

> SAF_02: Diogelu adnoddau strategol
>
> Rhaid i gynigion a allai gael effeithiau niweidiol arwyddocaol ar ragolygon unrhyw sector a gwmpesir gan y cynllun hwn i ddefnyddio adnoddau strategol cynaliadwy yn y dyfodol (**o adnoddau a nodwyd gan SRA**) ddangos sut y byddant yn mynd i'r afael â materion cydnawsedd â'r defnydd potensial hwnnw o adnoddau.
>
> Rhaid i gynigion na allant ddangos cydnawsedd digonol gyflwyno achos

clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen. Dylid dangos cydnawsedd, yn nhrefn blaenoriaeth:

◊ Osgoi effeithiau niweidiol arwyddocaol ar y defnydd potensial hwn o adnoddau strategol, a/neu

◊ Lleihau'r effeithiau niweidiol arwyddocaol lle na ellir eu hosgoi; a/neu

◊ Lliniaru effeithiau niweidiol arwyddocaol lle na ellir eu lleihau

Mae'r Cynllun Morol yn rhoi rhagor o fanylion am sut y dylid cyflwyno a nodi SRA. Er enghraifft, mae'n nodi pan fo awdurdod cynllunio morol yn bwriadu cyflwyno SRA y dylai ymgynghori ar y cynnig. Mae'r Cynllun Morol hefyd yn nodi y dylai'r awdurdod cynllunio morol "nodi'r cyfyngiadau a'r cyfleoedd amgylcheddol sy'n berthnasol i'r SRA". Mae hefyd yn nodi bod Hysbysiadau Cynllunio Morol yn ystyriaeth berthnasol mewn penderfyniadau o dan **adran 58** o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, sy'n nodi:

> A public authority must take any authorisation or enforcement decision in accordance with the appropriate marine policy documents, unless relevant considerations indicate otherwise.

## 5.4. Polisi'r sector olew a nwy

Roedd y Cynllun Morol mabwysiedig yn cynnwys is-bolisi newydd ar olew a nwy, nad oedd wedi'i gynnwys yn y drafft. Amlygodd hyn wahaniaethau polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Mae polisi 'O&G_01a' o'r Cynllun Morol mabwysiedig, sy'n berthnasol i ardaloedd y môr mawr a dyfroedd y glannau (sy'n destun polisi cenedlaethol Llywodraeth y DU), yn cefnogi yn bennaf datblygiad gweithgareddau olew a nwy. Y polisi yw (pwyslais wedi'i ychwanegu):

> Bydd cynigion ar gyfer echdynnu olew a nwy yn gynaliadwy gan **gael y gorau** ohono'n economaidd yn cael eu **cefnogi** pan fyddant yn cydymffurfio ag amcanion y cynllun hwn, ac yn bodloni'n llawn y mesurau diogelu amgylcheddol sydd wedi'u cynnwys yn y prosesau statudol o ddyfarnu trwyddedau cynhyrchu a chymeradwyaethau dilynol sy'n benodol i weithgareddau. Dylai cynigion gydymffurfio â pholisïau cyffredinol perthnasol a pholisïau diogelu'r cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

Mae'r is-bolisi newydd 'O&G_01b', sy'n ymwneud â meysydd lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli i Gymru, yn llai cefnogol i weithgareddau olew a nwy (pwyslais wedi'i ychwanegu):

> Polisi Llywodraeth Cymru yw **osgoi parhau i echdynnu** tanwydd ffosil mewn **ardaloedd rhynglanwol ac aberoedd a dyfroedd cilfach arfordirol** sy'n dod o fewn **ardal drwydded ar y tir Cymru**. **Ni ddylid cefnogi** ceisiadau am drwyddedau petrolewm newydd yn yr ardaloedd hyn, **oni bai eu bod yn ofynnol ar gyfer diogelwch mwyngloddio neu ddibenion gwyddonol.** Rhaid i gynigion ar gyfer datblygu ac echdynnu olew a nwy gydag elfennau ar y tir yn yr ardaloedd hyn ddarparu tystiolaeth gadarn a chredadwy i ddangos sut maent yn cydymffurfio â Hierarchaeth Cynllunio Ynni Polisi Cynllunio Cymru, gan gynnwys sut maent yn gwneud cyfraniad angenrheidiol tuag at ddatgarboneiddio'r system ynni.





### 5.4.a Datganiad gweinidogol

Roedd polisïau'r sector olew a nwy yn nodwedd allweddol o'r **datganiad llafar** a wnaed gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ym mis Tachwedd. Wrth gyhoeddi'r cynllun, dywedodd y Gweinidog:

> Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys cyfeiriadau at bolisïau Llywodraeth y DU lle mae materion wedi'u neilltuo i Lywodraeth y DU. Yn anochel, ceir meysydd lle mae gwrthgyferbyniad rhwng polisi Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae un maes o'r fath yn ymwneud ag echdynnu olew a nwy. Nod polisi Llywodraeth Cymru yw osgoi rhagor o gloddio a defnyddio tanwyddau ffosil ym mhob ardal yr ydym yn gyfrifol amdani…
>
> Yn ein cynllun, rydym ni hefyd wedi cynnwys manylion polisi Llywodraeth y DU, i'r graddau y mae'n berthnasol i'r moroedd sy'n amgylchynu Cymru. Eu polisi yw manteisio i'r eithaf ar echdynnu tanwydd ffosil yn yr ardaloedd arfordirol sy'n amgylchynu Cymru. Ni allai'r gwrthgyferbyniad rhwng polisi Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fod yn fwy amlwg. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, hoffwn gofnodi barn Llywodraeth Cymru bod unrhyw bolisi i annog parhau i echdynnu tanwyddau ffosil yn bolisi y byddem yn ei wrthod yn bendant.

## 5.5. Polisi morlyn llanw

Mae'r ddogfen **crynodeb o newidiadau** yn tynnu sylw at y polisi ar ddatblygu morlyn llanw fel thema allweddol yn ymatebion yr ymgynghoriad i'r Cynllun Morol drafft:

> Er bod yr ymatebwyr yn cefnogi polisi i annog ynni carbon isel, mynegwyd pryder sylweddol ynghylch y polisi WNMP drafft ar forlynnoedd llanw a'i gefnogaeth i ddatblygiadau morlyn ar raddfa fawr ochr yn ochr â chanfyddiadau'r HRA na ellid dod i'r casgliad na fyddai polisi o'r fath yn arwain at effeithiau andwyol ar gyfanrwydd Safle(oedd) Ewropeaidd. Nododd ymatebwyr hefyd fod datblygiad o'r fath yn debygol o arwain at effeithiau ac effeithiau cronnol yn ymestyn ar draws ffiniau cenedlaethol, cynllunio morol a thir/môr, ac roeddent o'r farn y dylai'r WNMP drafft ymdrin â'r materion hyn yn fwy eglur…

Mae'r **Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd** a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Cynllun Morol drafft yn nodi nad oedd Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd lefel y cynllun yn

gallu dod i'r casgliad nad oedd polisi 'ELC_01' fel y mae'n ymwneud â morlynnoedd llanw yn debygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd. O ganlyniad, cynhaliwyd **Asesiad Priodol** manwl mewn perthynas â'r rhan o'r polisi 'ELC_01' sy'n ymwneud â morlynnoedd llanw. Mae canfyddiadau'r Asesiad Priodol wedi'u cynnwys yn yr **Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd.**

Canfu'r Asesiad Priodol nad oedd yn bosibl, ar lefel y cynllun, ddiystyru effaith andwyol ar gyfanrwydd y safleoedd hynny sy'n cefnogi pysgod mudol, cynefinoedd rhynglanwol a chynefinoedd rhynglanwol a allai gynnal bwydo a/neu glwydo adar. Casgliad hyn oedd, pe bai'r polisi'n cael ei ddatblygu yn ei ffurf bresennol, byddai angen i Lywodraeth Cymru ystyried teilyngdod a chymhwysedd cymhwyso Erthygl 6 (4) o resymau hanfodol y **Gyfarwyddeb Cynefinoedd** dros broses bwysicaf budd y cyhoedd (IROPI). Mae'r Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd yn esbonio:

> Where, upon assessment, it cannot be excluded on the basis of objective information that the policy supporting tidal lagoons in SRAs in the draft WNMP will have a significant adverse effect upon European Sites, then either the plan or policy must be amended or (if appropriate) the plan be taken forwards under derogation procedures afforded by Article 6(4).

Mae'r ddogfen **crynodeb o newidiadau** yn tynnu sylw at y canlynol mewn cysylltiad â'r polisi morlyn llanw yn y cynllun mabwysiedig:

> Adolygwyd polisi morlyn llanw ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol a CNC ac fe'i mireiniwyd i ganolbwyntio ar ddull cam wrth gam i gefnogi'r sector, gan gynnwys ymagwedd strategol, seiliedig ar dystiolaeth i ganiatáu gwell dealltwriaeth o gyfleoedd yn y dyfodol.

Nid yw'r polisi diwygiedig yn cael ei ddwyn ymlaen o dan IROPI mwyach. Mae'r ddogfen **Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd** a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Cynllun Morol mabwysiedig yn amlygu, yn dilyn asesiadau o'r polisïau newydd, ystyrir bellach:

> ...the measures within the WNMP together with the availability and means of ensuring project-level mitigation will ensure that there will be no adverse effect on the integrity of any European sites, alone or in combination, as a result of the plan's implementation.

## 5.6. Newidiadau i'r Asesiad Cynaliadwyedd

Yn dilyn diwygiadau i'r Cynllun Morol drafft, adolygwyd y newidiadau a, lle y bernir eu bod yn briodol, fe'u haseswyd fel rhan o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd parhaus. Cyflwynir y canfyddiadau mewn **Atodiad Arfarniad o Gynaliadwyedd**.

Mae effeithiau sylweddol y *newidiadau* a wnaed i'r cynllun yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i):





- Gynnwys amcan ychwanegol yn ymwneud â thwristiaeth arfordirol a hamdden (amcan 5), a allai arwain at densiynau posibl rhwng y dyhead am dwf glas a'r angen i amddiffyn a gwella'r amgylchedd morol;
- Diwygiadau i bolisi 'SOC_06' (tirweddau dynodedig) i gynnwys cyfeiriad penodol at effeithiau posibl ar dirweddau dynodedig, hierarchaeth liniaru a chyfleoedd i wella tirweddau dynodedig. Mae'r newid hwn yn gwneud y canlynol:

  > strengthens the policy in terms of the positive effects on biodiversity… heritage…and tourism and recreation…which are now considered to be a significant positive effect; however, there has not been any consequential change to the overall cumulative effects of this section

- Aseswyd bod newidiadau i agregau, dyframaeth, olew a nwy a pholisïau'r sector morgludo yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar yr economi gan eu bod yn cefnogi twf y gwahanol sectorau, gan roi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr annog buddsoddiad yn y dyfodol; a
- Effaith negyddol sylweddol a nodwyd ar gyfer y polisi diwygiedig 'ELC_01' (polisi ehangach yn flaenorol ar gynhyrchu ynni carbon isel ond sydd bellach yn benodol i gynhyrchu ynni gwynt). Nodwyd yr effaith hon oherwydd y potensial y gall datblygiadau ynni gwynt ar y môr gael effeithiau andwyol ar dirwedd/morlun ac amwynder gweledol.

Caiff effeithiau tebygol ychwanegol polisïau'r Cynllun Morol eu crynhoi yn adran 4 o'r **Atodiad Arfarniad o Gynaliadwyedd.**

# 6. Sut mae'r Cynllun Morol yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru)?

Mae adran 4 (a thabl 3.7) o'r Atodiad Arfarniad o Gynaliadwyedd yn disgrifio cyfraniad tebygol y Cynllun Morol at y nodau llesiant (fel y'u diffinnir yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)** ac amcan SMNR (fel y'i diffinnir yn **Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**). Aseswyd hyn trwy fapio'r nodau llesiant ac amcan SMNR yn ôl meini prawf yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'i lywio gan yr arfarniad o'r polisïau trawsbynciol cyffredinol a pholisïau'r sector yn erbyn meini prawf yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Yna gwnaed dyfarniad ynghylch a fyddai'r Cynllun Morol, ac i ba raddau, yn cefnogi neu'n tynnu oddi wrth gyflawni pob nod llesiant (a thrwy estyniad, amcan SMNR). Mae'r Atodiad Arfarniad o Gynaliadwyedd yn nodi:

> Table 3.7 demonstrates that the revised Draft [now adopted] WNMP policies are likely to make a significant positive contribution to the achievement of the seven well-being goals for Wales, supporting the objective for SMNR…Development and use of the marine area will unavoidably require the use of natural resources and could result in some adverse environmental effects that would need to be considered carefully in the context of the well-being goal 'A resilient Wales'. However, the general cross-cutting policies…seek to avoid, minimise or mitigate significant adverse effects associated with new development or activity and will help to ensure the sustainable management of natural resources.
>
> The Environment (Wales) Act 2016 introduces a number of principles that underpin the achievement of SMNR. These principles, which are to be applied equally, have guided the development of the revised Draft WNMP. It is outside the scope of this SA to consider exactly how the plan has been developed in accordance with these principles and it is recommended that the Welsh Government gives further consideration with regard to how best to ensure and demonstrate the integration of SMNR principles in the process of plan development and future marine spatial planning decisions.





# 7. Sut y dylid defnyddio'r Cynllun Morol?

## 7.1. Penderfyniadau awdurdodau cyhoeddus

Mae'r Cynllun Morol yn ddogfen polisi morol priodol at ddibenion Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir. O'r herwydd, mae'n rhaid i awdurdod cyhoeddus gymryd unrhyw benderfyniad awdurdodi neu orfodi **yn unol** â'r Cynllun Morol (ac unrhyw "ddogfennau polisi morol priodol") oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall.

Mae penderfyniad awdurdodi neu orfodi wedi'i **ddiffinio** yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir fel a ganlyn:

> (a) the determination of any application (whenever made) for authorisation of the doing of any act which affects or might affect the whole or any part of the UK marine area,
>
> (b) any decision relating to any conditions of such an authorisation,
>
> (c) any decision about extension, replacement, variation, revocation or withdrawal of any such authorisation or any such conditions (whenever granted or imposed),
>
> (d) any decision relating to the enforcement of any such authorisation or any such conditions,
>
> (e) any decision relating to the enforcement of any prohibition or restriction (whenever imposed) on the doing of any act, or of any act of any description, falling within paragraph (a),
>
> but does not include any decision on an application for an order granting development consent under the Planning Act 2008 (c. 29) (in relation to which subsection (3) has effect accordingly).

Mae is-adran 3 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus **ystyried** y Cynllun Morol wrth wneud *unrhyw benderfyniad arall* sy'n ymwneud ag arfer unrhyw swyddogaeth a all effeithio ar ardal forol y DU gyfan neu unrhyw ran ohoni.

## 7.2. Integreiddio â chyfundrefnau cynllunio eraill

Mae'r Cynllun Morol yn nodi bod cynllunio morol yn galw am "integreiddio cynlluniau morol â chynlluniau morol cyfagos a chynlluniau tir cyfagos hefyd, i leihau i'r eithaf y perygl y bydd penderfyniadau mewn un ardal yn cael effeithiau anffafriol mewn un arall". Mae hefyd yn disgrifio'r gofynion cyfreithiol o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir:

> Mae'r MCAA yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau cynllunio morol

> yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y cynllun morol yn gydnaws â chynlluniau yn y system cynllunio defnydd tir. Ceir gofyniad hefyd wrth baratoi cynllun morol i roi ystyriaeth i unrhyw gynllun arall a baratowyd gan awdurdod cyhoeddus neu leol.

Mae'r Cynllun Morol yn tynnu sylw at aberoedd Dyfrdwy a Hafren fel ardaloedd trawsffiniol lle mae angen penodol i sicrhau bod y Cynllun Morol yn gweithredu'n esmwyth ar draws ffiniau gweinyddol. Mae hefyd yn egluro:

> Dylai unrhyw benderfyniad a all effeithio ar ardal y Cynllun, yn cynnwys y rheini sy'n ymwneud â gweithgareddau ar dir, gael eu gwneud yn unol â'r Cynllun hwn oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu'n wahanol, neu ar ôl ystyried y Cynllun hwn… Os oes potensial i'r penderfyniad effeithio ar ardal cynllun morol arall, dylid ei wneud ar ôl ystyried y cynllun morol perthnasol arall, neu yn unol ag ef, yn ôl yr angen.

Mae **cyhoeddiad ar-lein "cwestiynau cyffredin"** gan Lywodraeth Cymru yn nodi:

> The WNMP will sit alongside and interact with existing planning regimes and will be consistent with strategic priorities set out in the National Development Framework on land. The WNMP area will physically overlap with terrestrial planning Local Development Plan boundaries to ensure marine and terrestrial planning work together… Local Authority jurisdiction is from the mean low water mark landwards so the two planning regimes overlap.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **ffeithlun** gyda'r bwriad o ddangos sut mae'r Cynllun Morol yn gweithio ochr yn ochr â'r **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** (NDF) drafft ar dir. Mae **papur esboniadol** hefyd wedi'i baratoi i gynorthwyo darllenwyr yr NDF drafft i ddeall y berthynas rhwng yr NDF drafft a'r Cynllun Morol a'r dull a gymerir tuag at bolisi porthladdoedd. Ar 12 Tachwedd 2019, gofynnwyd i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn y **Cyfarfod Llawn** am y cysylltiadau rhwng yr NDF a'r Cynllun Morol. Cytunodd i siarad â'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol am groesgyfeirio'r ddwy ddogfen.

## 7.3. Gweithredu

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio **llinell amser** sy'n dangos y datblygiadau disgwyliedig ar gyfer cynllunio morol yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys "codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant a chyflwyno arfer gorau" tan 2021. Mae hefyd yn tynnu sylw at brosiect cysylltiedig parhaus, y **Rheoli Prosiect Adnoddau Naturiol Morol yn Gynaliadwy**, y disgwylir iddo gael ei gwblhau yn 2021. Mae **trosolwg Llywodraeth Cymru o'r Cynllun Morol** hefyd yn amlygu wrth edrych at y dyfodol:

> Mae'r cynllun yn darparu ar gyfer cyhoeddi Hysbysiadau Cynllunio Morol ac ar gyfer nodi Ardaloedd Adnoddau Strategol. Bydd Ardaloedd





> Adnoddau Strategol yn diogelu ardaloedd lle mae adnoddau naturiol sydd o bwys penodol i sector (e.e. ynni'r llanw, ynni'r tonnau, tywod ar gyfer adeiladu ac ati) a byddant o fewn ardaloedd adnoddau ehangach sy'n berthnasol i'r sector hwnnw.

Yn y **Cyfarfod Llawn** ar 12 Tachwedd 2019, dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig:

> Gan ein bod bellach wedi cyhoeddi a mabwysiadu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, bydd ein hymdrechion yn canolbwyntio ar weithredu. Mae grŵp penderfynwyr cynllunio morol wedi'i ffurfio ac mae canllawiau atodol manwl wrthi'n cael eu cwblhau ar y cyd â rhanddeiliaid. Erbyn hyn, rydym ni wedi rhyddhau fersiwn wedi'i diweddaru o borth cynllunio morol Cymru, gan ddarparu mapiau tystiolaeth rhyngweithiol ar-lein sydd ar gael yn rhwydd.
>
> Wrth i'r sylfaen dystiolaeth ddatblygu byddwn yn mireinio'r cynllun yn barhaus a sut mae'n berthnasol i weithgareddau penodol a rhanbarthau penodol o Gymru.

Ar 20 Ionawr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **fframwaith monitro ac adrodd** ar y Cynllun Morol. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r dull y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gymryd i ddatblygu dangosyddion ar gyfer monitro'r gwaith o weithredu'r Cynllun Morol. Mae'n nodi ei fod "yn gam cyntaf yn y broses o ddatblygu dull monitro ac adrodd ar CMCC…sy'n arwain at gyhoeddi'r adroddiad monitro cyntaf yn 2022".

### 7.3.a Datganiad Ardal Forol

Ym mis Mawrth 2020, disgwylir i **Cyfoeth Naturiol Cymru** gyhoeddi **Datganiad Ardal Forol**. Bydd hwn yn un o saith Datganiad Ardal a fydd yn ymdrin â **gwahanol ardaloedd** o Gymru. Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru lunio Datganiadau Ardal o dan **Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.** Mae'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i bob Datganiad Ardal:

> ◊ (a) egluro pam y paratowyd datganiad ar gyfer yr ardal, drwy gyfeirio at—
>
> ◊ (i) yr adnoddau naturiol yn yr ardal,
>
> ◊ (ii) y manteision y mae'r adnoddau naturiol yn eu cynnig, a
>
> ◊ (iii) y blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol y mae angen ymdrin â hwy;
>
> ◊ (b) egluro sut y mae egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wedi eu cymhwyso wrth baratoi'r datganiad;
>
> ◊ (c) datgan sut y mae CNC yn bwriadu ymdrin â'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd, a sut y mae'n bwriadu cymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wrth wneud hynny;

> ◊ (d) pennu'r cyrff cyhoeddus y mae CNC yn ystyried y gallant gynorthwyo i ymdrin â'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd.

Tra bydd y Datganiad Ardal ond yn **ymwneud â rhanbarth glannau** Cymru, mae **gwefan** Datganiad Ardal Forol Cyfoeth Naturiol Cymru yn dweud y bydd "ategu'r broses o weithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru" yn thema allweddol ynddo.

## 7.4. Adolygu ac adrodd

O dan **adran 61** o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, mae'n ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu'r materion canlynol cyhyd â bod y Cynllun Morol yn weithredol:

- Effeithiau'r polisïau yn y cynllun morol;
- Effeithiolrwydd y polisïau hynny wrth sicrhau bod yr amcanion y paratowyd a mabwysiadwyd y cynllun morol ar eu cyfer yn cael eu cyflawni;
- Y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at sicrhau'r amcanion hynny; ac
- Y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at sicrhau bod yr amcanion y paratowyd a mabwysiadwyd y Datganiad Polisi Morol ar eu cyfer yn cael eu cyflawni yn y rhanbarth hwnnw.

Mae yna hefyd **ddyletswydd** o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir i baratoi a chyhoeddi adroddiad ar y materion hynny a gosod copi ohono gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhaid gwneud hyn ar gyfnodau o ddim mwy na 3 blynedd. Ar ben hynny, mae yna **ddyletswydd** ychwanegol ar Weinidogion Cymru i baratoi adroddiad a'i osod gerbron y Cynulliad ar

- Unrhyw gynlluniau morol y mae wedi'u paratoi a'u mabwysiadu;
- Eu bwriadau ar gyfer eu diwygio; a
- Eu bwriadau ar gyfer paratoi a mabwysiadu unrhyw gynlluniau morol pellach.

Rhaid llunio a gosod hwn ar gyfnodau o ddim mwy na 6 mlynedd.

## 7.5. Diwygio'r Cynllun Morol neu ei dynnu'n ôl

Mae'r Cynllun Morol yn nodi bod y cynllun yn:

> ...cwmpasu cyfnod o 20 mlynedd ond cydnabyddir ei bod yn bosibl y bydd angen cynllunio ar gyfer rhai gweithgareddau ar gyfer wedi'r cyfnod hwn a bod eraill yn debygol o newid yn sylweddol yn ystod oes y Cynllun hwn.





Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn **caniatáu** ar gyfer diwygio'r Cynllun Morol:

> A marine plan may be amended from time to time by the marine plan authority for the marine planning region in which the marine plan area lies.

Gellir tynnu cynllun morol yn ôl ar unrhyw adeg ond rhaid gwneud hynny yn unol â darpariaethau Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir **(adran 53)**.

## 7.6. Argymhellion Arfarniad o Gynaliadwyedd

Yn ystod y broses Arfarniad o Gynaliadwyedd, datblygwyd nifer o argymhellion y gallai Llywodraeth Cymru eu hystyried yn ystod yr adolygiad o'r Cynllun Morol neu wrth baratoi cynlluniau morol yn y dyfodol. Cyflwynwyd y rhain yn yr **Atodiad Arfarniad o Gynaliadwyedd** ac maent yn cynnwys:

- Datrys ansicrwydd mewn perthynas â thebygolrwydd effeithiau yn digwydd a'u maint, trwy raglen ymchwil bellach;
- Defnyddio tystiolaeth ar allu i nodi targedau;
- Darparu canllawiau lleoliadol atodol;
- Adolygu effeithiolrwydd polisi; a
- Rhoi ystyriaeth bellach i'r ffordd orau o sicrhau a dangos y gwaith o integreiddio. **egwyddorion SMNR** a **nodau llesiant** Cymru yn y broses o gynllunio morol.

# 8. Ffynonellau Allweddol

## 8.1. Llywodraeth Cymru

- Gwefan **Cynllunio Morol**;
- **Cynllun Morol mabwysiedig;**
- **Crynodeb o newidiadau** ers yr ymgynghoriad y Cynllun Morol;
- **Trosolwg** o'r Cynllun Morol;
- **Arfarniad o Gynaliadwyedd**, gan gynnwys yr Atodiad Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Datganiad Gwerthuso Cynaliadwyedd ar ôl mabwysiadu;
- **Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd;**
- **Cwestiynau Cyffredin** y Cynllun Morol;
- **Canllaw cyfeirio cyflym** y Cynllun Morol;
- **Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru Drafft.**

## 8.2. Cynulliad Cenedlaethol Cymru

- **Argymhellion** y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar y Cynllun Morol drafft;
- Y datganiad llafar yn **cyhoeddi'r** Cynllun Morol mabwysiedig yn y Cyfarfod Llawn.

## 8.3. Ffynonellau eraill

- Blog Ymchwil y Senedd: **Rheoli Moroedd Cymru: Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru**;
- Blog Ymchwil y Senedd: **Cynllun morol i Gymru,** Mehefin 2016;
- Briff Ymchwil y Senedd: **Cynllunio Gofodol Morol,** Rhagfyr 2017.